

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

## Canllawiau Cyffredinol

# Cynnwys


3 Cyflwyniad

4 Beth yw pwrpas y Rheoliadau?

4 Y berthynas rhwng y Rheoliadau a Thrawsgydymffurfio

5 Pa brosiectau sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau AEA?

5 Sut alla i ddweud os yw fy nhir i'n dir lled-naturiol?

9 AEA a'r Amgylchedd Hanesyddol

9 Pa weithrediadau amaethyddol sydd wedi eu heithrio o'r Rheoliadau AEA?

11 Ailstrwythuro daliadau tir gwledig

11 Beth sydd ddim angen ei asesu dan y Rheoliadau AEA Amaethyddiaeth

12 Proses Sgrinio AEA

13 Asesu cais sgrinio

14 Pa fathau o benderfyniadau sy'n cael eu rhoi ar ddiwedd y broses sgrinio?

15 Senarios Astudiaethau Achos: Senario 1 Gweithgaredd arfaethedig

16 Senarios Astudiaethau Achos: Senario 2 Gweithgaredd arfaethedig

17 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cydymffurfio â'r Rheoliadau AEA?

18 Atodiad 1: Canllaw i'ch helpu i benderfynu a yw eich Glaswelltir yn dir Heb ei Drin neu'n dir Lled-naturiol

20 Atodiad 2: Meini Prawf ar gyfer Penderfyniadau Sgrinio

21 Atodiad 3: Diffiniadau, Eglurhad a Rhagor o Wybodaeth


OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG37918 ISBN digidol 978-1-83876-322-0 ISBN argraffu 978-1-83876-351-0



## Cyflwyniad

Er 2002, mae Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (y Rheoliadau AEA) wedi caniatáu i'r rhan fwyaf o waith amaethyddol fynd yn ei flaen drwy'r gyfundrefn AEA, gan sicrhau nad oes effaith sylweddol ar nodweddion amgylcheddol pwysig. Pwrpas y Rheoliadau AEA yw ystyried effeithiau prosiectau amaethyddol ar yr amgylchedd (e.e. cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion hanesyddol).

## Beth yw pwrpas y Rheoliadau?

Mae ffermwyr yn chwarae rhan hynod o bwysig drwy helpu i ofalu am gefn gwlad a'n bywyd gwyllt. Os yw tir amaethyddol yn cael ei reoli mewn ffordd sensitif, gall gynnal fflora a ffawna sy'n bwysig i'r amgylchedd. Wrth i'n cynefinoedd naturiol fynd yn dameidiog, gall tir amaethyddol sy'n cael ei reoli'n dda ddarparu cyswllt hanfodol rhwng safleoedd sy'n bwysig o safbwynt amgylcheddol, gan helpu bywyd gwyllt i symud o gwmpas yn rhwydd a chael mynediad i glytwaith o safleoedd naturiol sy'n gysylltiedig â'i gilydd.

Prif amcan Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017, "y Rheoliadau AEA", yw ystyried effaith prosiectau dwysáu amaethyddol ar yr amgylchedd (os oes effaith) cyn iddynt gychwyn.

Mae'r Rheoliadau AEA hefyd yn berthnasol i dir sy'n cynnwys asedau hanesyddol (safleoedd o werth archaeolegol, hanesyddol neu ddiwylliannol), gan fod y safleoedd hyn yn rhan annatod o dirwedd ac amgylchedd hanesyddol ehangach Cymru.

## Y berthynas rhwng y Rheoliadau a Thrawsgydymffurfio

Mae cydymffurfio â'r Rheoliadau AEA yn ofynnol er mwyn cadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) 6.

Mae peidio â chyflawni gofynion GAEC 6 (Pridd a Deunydd Organig – Eu Diogelu) yn torri amodau trawsgydymffurfio, a gallai effeithio ar eich taliad dan Gynllun y Taliad Sylfaenol.

### Y gyfundrefn AEA amaethyddol; diogelu cynefinoedd ac asedau hanesyddol Cymru.

Mae'r Rheoliadau AEA wedi llwyddo i rwystro effeithiau sylweddol ar 89 o safleoedd glaswelltir o werth ecolegol neu hanesyddol uchel rhwng 2002 a 2016, nad ydynt yn cael eu gwarchod drwy unrhyw ddynodiad arall.

### Dull gweithredu ymarferol gan Lywodraeth Cymru, er mwyn helpu ffermwyr i ddilyn y broses.

Yn ystod y cyfnod rhwng 2002 a 2016 mae'r tîm AEA wedi gweithio gyda 1,494 o ffermwyr a pherchnogion tir yng Nghymru. Bydd aelodau'r tîm wedi ymweld â'r rhan fwyaf o'r rhain ar eu ffermydd ac wedi trafod eu prosiectau arfaethedig gyda nhw. Mewn llawer o achosion bydd yr ymgeiswyr wedi cael eu cyfeirio at wybodaeth a chanllawiau defnyddiol eraill.

Yn ystod yr un cyfnod, cafodd 100 o geisiadau sgrinio naill ai eu tynnu'n ôl neu eu diwygio yn dilyn ymweliad safle, sy'n dangos sut y gall ymwneud â'r broses AEA a chyswllt wyneb yn wyneb fod o fudd i ffermwyr. Ni fwriadwyd i'r Rheoliadau AEA rwystro arferion amaethyddol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth law i helpu unigolion i gydymffurfio â'r rheoliadau drwy gynnig y gefnogaeth a'r arweiniad sydd ei angen.

# Pa brosiectau sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau AEA?

### Beth yw prosiect?

Mae prosiect yn golygu unrhyw weithgaredd amaethyddol, sy'n cael ei gyflawni er mwyn gwneud tir lled-naturiol yn fwy cynhyrchiol o safbwynt amaethyddol, ac sy'n achosi newid sylweddol o ran:

- y ffordd y mae'r tir yn cael ei ffermio, fel bod defnydd mwy dwys yn cael ei wneud ohono; neu
- y rhywogaethau sy'n ffurfio'r llystyfiant ar wyneb y ddaear yn yr hirdymor.

Y prawf allweddol er mwyn i'r rheoliadau gael effaith, yw bod llai na 25% o'r tir o dan borfa amaethyddol wedi'u gwella a/neu feillion gwyn.

Mae tir sy'n ffitio'r diffiniad hwn yn cael ei ddosbarthu gan y Rheoliadau fel lled-naturiol. Rhaid gwneud Cais Sgrinio cyn dechrau unrhyw waith ar y tir hwn. Mae'r prawf hwn yn bwysicach nag unrhyw brawf arall.

## 1. Prosiectau ar dir lled-naturiol
## Sut alla i ddweud os yw fy nhir i'n dir lled-naturiol?

Yn fras iawn, yr hyn sy'n dangos a yw tir yn dir lled-naturiol yw'r planhigion a'r bywyd gwyllt sy'n byw yno. Yn aml iawn hefyd nid yw'r tir wedi cael ei drin/ailhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n bosibl bod y tir wedi cael llonydd, er enghraifft heb gael ei lyfnu ag oged gadwyn, neu heb gael llawer o dail organig neu wrtaith anorganig i newid lefel y maethynnau. Gall ardaloedd o'r fath gynnwys glaswelltiroedd yr iseldir a'r ucheldir, os oes llai na 25% o'r tir o dan borfa amaethyddol wedi ei gwella a/neu feillion gwyn.

Mae'r prosiectau hyn yn berthnasol i waith ar dir lled-naturiol ac nid ydynt yn berthnasol i waith ar:

- dir âr;
- gwndwn glaswellt tymor byr;
- tir wedi'i wella at ddibenion amaethyddol, sydd wedi cael ei drin yn ddwys ac sydd wedi cael llawer o wrtaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Er hyn, bydd angen i dir sydd â'r nodweddion isod, sy'n nodweddiadol o dir lled-naturiol, fynd drwy'r broses AEA, os oes gweithgareddau dwysáu yn cael eu cynnig. Darperir lluniau a disgrifiadau manylach drosodd:

**Glaswelltir Asidig (glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau)**

1. Mawnog
2. Rhedyn
3. Coetir llydanddail, cymysg ac yw
4. Glaswelltir Calchaidd
5. Cynefinoedd Arfordirol
6. Rhostir corlwyni
7. Ffen, cors a siglen
8. Glaswelltir Corsiog
9. Cynefinoedd Mynydd
10. Glaswelltir Niwtral a Gweirglodd
11. Prysgwydd
12. Merddwr a chamlesi

Os nad ydych yn siŵr a yw tir yn dir heb ei drin neu'n dir lled-naturiol, cysylltwch â'r tîm AEA i ofyn am gyngor – neu cyflwynwch gais sgrinio.

www.llyw.cymru/eiaamaeth

# Disgrifiad o fathau o dir sy'n cael eu hystyried yn dir lled-naturiol:



## Glaswelltir Asidig

I'w weld gan amlaf ar briddoedd asidig sych yn yr iseldir neu laswelltau asidig llaith ar glai glas neu fawn bas mewn ardaloedd eraill, fel arfer â pH o lai na 5.5.

Y planhigion nodweddiadol yw'r rhai sy'n gallu goroesi mewn amgylchedd asidig, fel y friwydd wen, tresgl y moch a suran yr ŷd.

Mae'r math hwn o laswelltir yn cynnwys rhostir sydd wedi cael ei bori'n drwm gan atal y gorchudd grug.



## Mawnog

Llystyfiant sy'n ffurfio mawn sy'n gysylltiedig â mwsoglau Sphagnum (migwyn) a phlu'r gweunydd unben.



## Rhedyn

Ardaloedd â gorchudd canopi di-dor o redyn – pan mae'r tymor tyfu yn ei anterth.



## Coetir llydanddail, cymysg ac yw

Mae coetir uwchben trothwy penodol yn cael ei ystyried dan Reoliadau AEA (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1990.

Mae ardaloedd eraill o brysgwydd lled-naturiol (sydd wedi ymrweiddio'n naturiol) yn cael eu cynnwys fel ardaloedd lled-naturiol.

Cysylltwch â Llywodraeth Cymru os nad ydych yn siŵr.



## Glaswelltir Calchaidd

Mae hwn i'w weld ar briddoedd â draeniad da sy'n cynnwys llawer o galchfaen neu greigiau eraill â llawer o galch. Fel arfer mae'r pH yn >6.

Y planhigion nodweddiadol yw'r rhai sy'n hoffi calch, fel bwrned, teim gwyllt, y cor-rosyn cyffredin a'r friwydd felen, ac maent wedi eu cyfyngu i'r math hwn o laswelltir fel arfer.



## Cynefinoedd Arfordirol

Mae'r rhain yn cynnwys morfeydd heli, twyni tywod a chlogwyni a llethrau arfordirol.



## Rhostir corlwyni

Yn y cynefin hwn mae o leiaf 25% o'r gorchudd yn gorlwyni, gan gynnwys grug (ling), llus ac eithin mân. Mae'n cynnwys rhostir yr ucheldir a'r iseldir.



## Ffen, cors a siglen

Mae'r cynefin hwn i'w weld ar fawndir neu briddoedd mwynol sydd â dŵr daear yn rhedeg iddynt, ac sy'n ddwrlawn drwy'r adeg neu yn achlysurol.

Mae ffeniau i'w gweld ar fawndir, lle mae dŵr glaw, dŵr daear a dŵr ffo yn cadw'r ddaear yn ddwrlawn am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Un o nodweddion siglen yw'r clystyrau tal o lystyfiant sy'n tyfu yno (yn sefyll mewn dŵr am ran o'r flwyddyn) – mae hyn yn cynnwys gwelyau cyrs.

Mae corsydd yn cyfeirio at ddolydd corsydd calchog a phorfa frwynog, a all ymddangos fel glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, ond a fydd yn ddwrlawn yn ystod y gaeaf o leiaf.



## Glaswelltir Corsiog

Y planhigion a welir ar y glaswelltiroedd gwlyb hyn fel arfer yw brwyn, glaswellt y gweunydd, erwain neu ellesg.

Yn aml iawn mae adeiladwaith y borfa'n dalach na chynefinoedd glaswelltir sychach.

Gall fod ar briddoedd mawnaidd ond byth ar fawn dwfn.



## Cynefinoedd Mynydd

Llystyfiant uwchben llinell y coed (h.y. fel arfer dros 600m uwchlaw lefel y môr).



## Glaswelltir Niwtral a Gweirglodd

Mae llystyfiant y cynefin hwn yn cynnwys glaswelltau a pherlysiau yn bennaf ar briddoedd amrywiol (pH o 4.5-6.5 fel arfer).

Mae'n cynnwys tir pori a gweirgloddiau sych caeedig sydd wedi cael eu rheoli drwy ychwanegu tail organig neu lefelau isel o wrtaith anorganig yn flynyddol neu yn achlysurol, yn yr ucheldir a'r iseldir fel ei gilydd.

Nid yw mathau o laswelltir sydd wedi eu gwella neu eu lled-wella, sydd wedi cael eu newid drwy eu rheoli (yn enwedig drwy eu hailhau ac ychwanegu gwrtaith anorganig) yn ystod y blynyddoedd diweddar yn cael eu hystyried yn lled-naturiol.



## Prysgwydd

Mae'r llystyfiant yn cynnwys prysgwydd yn bennaf, er enghraifft eithin Ffrengig, drain gwynion, drain duon neu lwyni mwyar duon.



## Merddwr a chamlesi

Mae'r cynefin hwn yn cynnwys systemau naturiol fel llynnoedd a phyllau, yn ogystal â dyfroedd sydd wedi cael eu gwneud gan ddyn, fel cronfeydd dŵr, camlesi, pyllau dŵr a phyllau gro.

Mae'n cynnwys y parth dŵr agored (a all gynnwys llystyfiant tanddwr, arnofiol neu ddail arnofiol) a llystyfiant wrth ymyl y dŵr.

Mae ffosydd sydd â dŵr agored am y rhan fwyaf o'r flwyddyn o leiaf hefyd yn cael eu cynnwys yn y math hwn o gynefin.

# AEA a'r Amgylchedd Hanesyddol

Mae'r rheoliadau AEA yn diogelu asedau hanesyddol (safleoedd archaeolegol, hanesyddol a diwylliannol) sydd wedi eu lleoli ar leiniau o dir lled-naturiol (caniateir gwaith cynnal a chadw arferol).

Byddem felly'n eich cynghori'n gryf i edrych a oes asedau hanesyddol wedi'u cofnodi ar eich tir cyn cyflwyno cynigion eich prosiect.

Gallwch ddefnyddio cronfa ddata chwiliadwy ar-lein Archwilio*, i ganfod a oes asedau hanesyddol o fewn ffiniau'r darn o dir. Os bydd Archwilio yn dangos bod asedau hanesyddol o fewn ffiniau'r darn o dir gofynnwch am gyngor gan staff yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol berthnasol drwy ddilyn y dolenni cyswllt ar Archwilio.



# Pa weithgareddau amaethyddol nad oes angen cynnal asesiad AEA ar eu cyfer?


Nid yw'r Rheoliadau'n berthnasol i'r mathau isod o weithgareddau:

- Gweithrediadau arferol sydd wedi bod yn cael eu gwneud yn rheolaidd ers nifer o flynyddoedd, er enghraifft gwaith glanhau ffosydd arferol (sy'n cael ei wneud yn rheolaidd), gwaith rheoli rhedyn arferol lle nad yw'r tir yn cael ei ailhau wedyn, neu wrteithio rheolaidd.
- Gwaith amaethyddol ar dir âr, glaswelltir neu dir pori dros dro y mae mwy na 25% ohono'n o laswelltau amaethyddol wedi'u gwella a/neu feillion gwyn.

Efallai y gallai'r siart llif isod eich helpu i benderfynu a yw'r Rheoliadau'n berthnasol i'r gwaith rydych chi'n ystyried ei wneud. Os ydych chi'n dal ddim yn siŵr ar ôl darllen hwn cysylltwch â'r tîm AEA i ofyn am gyngor neu cyflwynwch gais sgrinio.

* Mae Archwilio yn darparu mynediad cyhoeddus at gofnodion amgylcheddol hanesyddol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am asedau hanesyddol hysbys ledled Cymru. Mae'r cofnodion yn cael eu cadw ar ran Gweinidogion Cymru gan y pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol ranbarthol sydd yng Nghymru yn unol â gofynion Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 www.llyw.cymru/eiaamaeth

# Pa weithgareddau amaethyddol nad oes angen cynnal asesiad AEA ar eu cyfer?



## 2. Ailstrwythuro daliadau tir gwledig

Mae hyn yn berthnasol i waith AR RADDFA FAWR, fel chwalu terfynau caeau ac ailffurfio / ail-lunio tir amaethyddol. Ni fydd hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o gynigion dwysáu yng Nghymru gan fod y trothwyon yn uchel. Y trothwyon ar dir nad yw'n dir sensitif yw:

- addasu o leiaf 4 km o derfynau caeau
- symud o leiaf 10,000 metr giwbig o bridd neu greigiau
- ailstrwythuro arwynebedd o 100 hectar o leiaf.

Y trothwyon ar ardaloedd sensitif (e.e. Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eraill) yw hanner yr uchod.

Yn wahanol i brosiectau gwella tir, gall mesurau rheoli cynllunio cyfredol neu fesurau rheoli eraill fod yn berthnasol i brosiectau ailstrwythuro (gweler isod).

Mae prosiectau ailstrwythuro ar bob math o dir (gan gynnwys tir lle tyfir grawnfwydydd, glaswelltir wedi'i wella a chynefinoedd lled-naturiol) yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau AEA. Nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r ardaloedd hynny sy'n cael eu dosbarthu fel tir lled-naturiol neu dir heb ei drin.

I gael rhagor o fanylion am y prosiectau sy'n perthyn i Gategori 2, neu os ydych yn meddwl y gallai eich prosiect chi fod yn perthyn i'r categori hwn, cysylltwch â thîm AEA Llywodraeth Cymru.

## Beth sydd ddim angen ei asesu dan y Rheoliadau AEA Amaethyddiaeth

### Nid yw'r Rheoliadau AEA Amaethyddiaeth yn berthnasol i'r gweithgareddau rheoli tir a ganlyn:

### Gweithrediadau Coedwigaeth a Choetir:

Mae angen i waith coedwigaeth mewn rhai amgylchiadau gael Caniatâd AEA Coedwigaeth. Mae'r gweithrediadau hyn yn cynnwys datgoedwigo, plannu, creu ffyrdd a chwarela mewn coedwig. Ymdrinnir â phrosiectau sy'n ymwneud â choedwigaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
Cysylltwch â CNC neu anfonwch ebost i'r adran goedwigaeth:

www.llyw.cymru/cysylltu-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein

### Tynnu Gwrychoedd/Perthi:

Mae angen i chi gael caniatâd gan eich Awdurdod Lleol ar gyfer gwaith a fyddai'n tynnu neu'n difrodi gwrychoedd/perthi neu derfynau traddodiadol, neu rannau ohonynt. Mae tynnu darn bach o wrych/perth ar gyfer adwy, lle nad oes mynediad arall, wedi ei eithrio, ond os oes gennych unrhyw amheuaeth cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol i gael eglurhad.

www.wlga.wales/welsh-local-authority-links

### Clirio ardaloedd lle mae Prysg:

Wedi ei eithrio oni bai y bydd y tir yn cael ei ffermio ar ôl hynny (ei bori neu ei gynaeafu). Bryd hynny bydd y Rheoliadau AEA Amaethyddiaeth yn berthnasol, a dylid cysylltu â LLYWODRAETH CYMRU, drwy Taliadau Gwledig Cymru.

www.llyw.cymru/cysylltu-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein

### Torri coed unigol:

Os yw'r goeden yn destun Gorchymyn Diogelu Coed rhaid gwneud cais am ganiatâd i dorri'r goeden, ac mae'n bosibl y bydd angen caniatâd i wneud gwaith dilynol, gan gynnwys tocio a thorri canghennau. Eich Awdurdod Lleol yw'r corff sy'n ymdrin â'r math hwn o Ganiatâd; gall hefyd ddweud pa goed sydd â Gorchymyn Diogelu Coed. Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol

**http://wlga.cymru/home**

### Prosiectau trafnidiaeth, ffermio pysgod a draenio tir ar raddfa fawr:

Mae gan y mathau hyn o brosiectau eu rheoliadau a'u hawdurdodau rhoi caniatâd eu hunain, ac nid ydynt yn debygol o fod yn berthnasol i'r rhan fwyaf o weithgareddau fferm yng Nghymru. Cysylltwch â LLYWODRAETH CYMRU drwy Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru i ofyn am gyngor.

**http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/rpwonline/contactus/?skip=1&lang=cy**

# Proses Sgrinio AEA

## Cyflwyno cais sgrinio

www.llyw.cymru/eiaamaeth

Os ydych yn bwriadu gwneud:

a) prosiect ar dir heb ei drin neu dir lled-naturiol; NEU
b) ailstrwythuro ar raddfa fawr ar eich daliad

bydd angen i chi lenwi Ffurflen Cais Sgrinio, sydd i'w chael gan Lywodraeth Cymru.

Drwy lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon i Lywodraeth Cymru, rydych yn hysbysu'r awdurdodau eich bod yn dymuno gwneud gwaith a allai gael ei effeithio gan y Rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Canllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen Cais Sgrinio.

Os ydych chi'n bwriadu ymgymryd â phrosiect, bydd angen i chi ddarparu'r canlynol:

- map yn nodi'r tir sy'n cael ei effeithio;
- disgrifiad byr o natur, maint a phwrpas y prosiect a'i effeithiau posibl ar yr amgylchedd;
- unrhyw wybodaeth arall y byddech yn hoffi ei chynnwys, er enghraifft hanes rheoli'r tir a'r rhesymau dros y prosiect;
- os ydych yn gwneud cais ar gyfer mwy nag un darn o dir, mae'n well rhestru pob un ar wahân ar y ffurflen. Mae hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn penderfyniadau;
- unrhyw gamau lliniaru a gynigir.

Ar ôl i chi gyflwyno'r wybodaeth hon bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod wedi cael y cais cyn pen dau neu dri diwrnod, yna bydd yn gwneud unrhyw ymchwiliadau y bernir bod eu hangen er mwyn asesu'r prosiect. Gwneir defnydd llawn o System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i ganfod unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol ac i brosesu'r cais cyn gynted ag y bo modd. Os nad oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o wybodaeth i benderfynu ynglŷn â'ch achos, mae'n bosibl y bydd yn ymweld â'r safle neu'n cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth.

# AEA yn gweithio gyda rheolwyr tir:

Yn ystod y cyfnod rhwng 2002 a 2016, dim ond mewn 7% o'r achosion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru y gofynnwyd am ragor o fanylion am y gwaith arfaethedig. Penderfynwyd bod 82% o'r ceisiadau a gyflwynwyd ddim yn cael effaith sylweddol neu heb fod o fewn cwmpas y Rheoliadau. Rhoddwyd ateb i'r rhan fwyaf o'r achosion yn llawer cyflymach na'r amser ymateb statudol, sef 35 diwrnod calendr.

Byddwch yn ofalus wrth baratoi eich cais sgrinio oherwydd dim ond ar gyfer y prosiect a nodwyd y bydd penderfyniad sgrinio yn ddilys. Bydd eich cais yn annilys:

- os bydd eich prosiect yn effeithio ar dir ar wahân i'r tir yr hysbyswyd Llywodraeth Cymru amdano;
- os bydd y gweithrediadau'n wahanol i'r rhai yr hysbyswyd amdanynt;
- os na fyddwch yn cymryd y camau a nodwyd gennych er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried eich cais ac yn rhoi ymateb ysgrifenedig i chi ar sail y meini prawf sydd yn Atodiad 2. Mae Atodiad 2 yn cynnwys y meini prawf sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ymatebion penderfyniad sgrinio.

## Cysylltwch â Llywodraeth Cymru os oes gennych unrhyw amheuaeth:

Gall eich cynghori a oes angen i chi lenwi ffurflen gais am benderfyniad sgrinio.

Gallwch gysylltu â'r tîm AEA yn eia.unit@llyw.cymru

Angen siarad â Llywodraeth Cymru? Ffoniwch y Llinell Gymorth Cyswllt Cwsmeriaid **0300 062 5004**

# Asesu cais sgrinio

Mae Llywodraeth Cymru yn asesu pob cais yn ofalus er mwyn penderfynu a yw o fewn cwmpas y Rheoliadau, ac os yw, a yw'n debygol o gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau neu nodweddion archaeolegol / diwylliannol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Gall Llywodraeth Cymru ymgynghori yn ôl y galw â chyrff statudol eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw ac Awdurdodau Lleol, ac â chyrff anstatudol, fel Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru, yr Ymddiriedolaethau Natur a Chanolfannau Cofnodion Biolegol. Cynhelir astudiaeth desg a fydd yn edrych ar ffynonellau data amrywiol, gan gynnwys ffotograffau cyfredol a hanesyddol o'r awyr, gwybodaeth am safleoedd wedi'u dynodi, mapiau gorchudd tir, data arolygon botanegol, hanesyddol ac archaeolegol a mapiau Arolwg Ordnans.

Gall gysylltu ag ymgeiswyr dros y ffôn i ofyn am ragor o wybodaeth, neu eglurhad neu i drafod y cynnig. Gall hefyd ymweld â'r safle.

Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu eich cais sgrinio ac yn rhoi ymateb ysgrifenedig ffurfiol i chi cyn pen 35 diwrnod. Yn aml iawn gall ymdrin ag achosion syml yn llawer cyflymach.

**Mae'n werth gwybod bod yr amser ymateb o 35 diwrnod yn cyfeirio at ddiwrnodau calendr a'i fod yn cynnwys penwythnosau.**

# Pa fathau o benderfyniadau sy'n cael eu rhoi ar ddiwedd y broses sgrinio?

Mae'r siart llif isod yn amlinellu'r penderfyniadau amrywiol y gall y tîm AEA eu gwneud mewn perthynas â'ch cais sgrinio.

Mae tri math o ateb cyffredin


- mae'r prosiect y tu hwnt i gwmpas y Rheoliadau AEA, a gallwch fwrw ati
- mae'r prosiect o fewn cwmpas y Rheoliadau AEA, ond mae'n annhebygol o achosi unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol: gallwch fwrw ati (penderfyniad yn ddilys am dair blynedd)
- mae'r prosiect yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau AEA, ac mae'n debygol o achosi effeithiau amgylcheddol sylweddol: nid oes modd bwrw ati heb ganiatâd AEA.

Os ydych chi eisiau gwneud cais am ganiatâd AEA, bydd gofyn i chi baratoi Datganiad Amgylcheddol a Chais am Ganiatâd AEA.

Wrth wneud cais, dylech gofio:

- mai dim ond ar gyfer y prosiect ar eich ffurflen gais y mae penderfyniadau sgrinio'n ddilys: ni ddylid newid y prosiect na'r ardal a effeithir heb ddweud wrthym ni
- ni fydd gan eich prosiect ganiatâd hyd nes i'r achos gael ei asesu: peidiwch â dechrau'r gwaith cyn derbyn cymeradwyaeth.

Gallwch gysylltu â'r tîm AEA ar EIA.unit@gov.wales



# Senarios Astudiaethau Achos

**Er mwyn ceisio dangos sut mae'r tîm AEA yn ymdrin â cheisiadau sgrinio, lluniwyd nifer o senarios enghreifftiol, sy'n nodweddiadol o achosion sgrinio AEA yng Nghymru. Ar gyfer pob senario disgrifir y math o brosiect, yna rhoddir disgrifiad byr o'r safle, ei hanes, gair i egluro pam y penderfynodd yr ymgeisydd gyflwyno cais sgrinio, a disgrifiad i gloi yn egluro sut y gwnaeth y tîm AEA asesu'r cais a dod i benderfyniad.**

## Senario 1

### Gweithgaredd arfaethedig:

Aredig ac ailhadu tua 7 hectar o laswelltir wedi'i wella.

### Disgrifiad o'r safle a hanes rheoli:

Cafodd y caeau dan sylw eu hailhadu ddiwethaf 5 mlynedd yn ôl, ac maent wedi cael gwrtaith yn rheolaidd ers hynny. Nid oedd arwyddion o nodweddion archaeolegol.



### Y broses ymgeisio:

Penderfynodd yr ymgeisydd wneud cais sgrinio er ei fod yn weddol sicr bod y caeau'n cael eu dosbarthu fel tir wedi'i wella â >25% o rygwellt. Ffoniodd yr ymgeisydd Linell Gymorth Cwsmeriaid Llywodraeth Cymru ac anfonwyd copi o Ffurflen Gais Penderfyniad Sgrinio EIA2(w) ato. Llenwodd yr ymgeisydd y ffurflen gan roi ei fanylion cysylltu, rhestr o rifau'r caeau a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd ynghyd â map cynllun y Taliad Sengl wedi'i anodi. Anfonwyd y rhain i Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth Cymru.

### Asesiad AEA a Chanlyniad:

Cynhaliodd tîm AEA Llywodraeth Cymru astudiaeth desg, ac ar sail data hanesyddol a lluniau o'r awyr a oedd ar gael roedd yn ymddangos yn glir bod y tir wedi cael ei wella at ddibenion amaethyddol yn y gorffennol diweddar a'i bod yn debyg nad oedd yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau AEA. Ffoniodd y tîm AEA yr ymgeisydd a chawsant sgwrs fer a gadarnhaodd fod y tir y tu allan i gwmpas y Rheoliadau. Rhoddwyd caniatâd i symud ymlaen â'r gwaith ymhen ychydig ddiwrnodau.

# Senario 2

## Gweithgaredd arfaethedig:

Aredig, ailhadu, gwrteithio a chwalu calch ar 3 hectar o gaeau llaith a thocio gwrychoedd/perthi a gwneud gwaith cynnal a chadw.

## Disgrifiad o'r safle a hanes rheoli:

Cafodd y caeau dan sylw eu hailhadu ddiwethaf tua 8 mlynedd yn ôl. Roeddent wedi cael gwrtaith, ond nid yn rheolaidd. Roedd yr unedau porfa wedi mynd yn llai cynhyrchiol ac roeddent yn edrych yn llai unffurf, ac yn ddylach eu lliw wrth i'r blynyddoedd fynd heibio.



## Y broses ymgeisio:

Roedd yr ymgeisydd yn meddwl ei bod yn debygol bod y caeau y tu allan i gwmpas y Rheoliadau, ond nid oedd yn siŵr felly cyflwynodd gais sgrinio.

## Asesiad AEA a Chanlyniad:

Awgrymodd astudiaeth desg gychwynnol ei bod yn bosibl na fyddai'r caeau dan sylw'n cael eu dosbarthu fel tir wedi'i wella. Trefnwyd ymweliad safle gyda'r ymgeisydd a chynhaliwyd arolwg botanegol. Dangosodd yr arolwg fod y borfa mewn gwirionedd yn cynnwys mwy na 25% o rywogaethau amaethyddol. Rhoddwyd caniatâd i'r ymgeisydd wneud y gwaith cyn pen 20 niwrnod ar ôl i'r cais sgrinio ddod i law. Rhoddwyd cyngor iddo hefyd ynglŷn â'r amser a'r dull gorau o wneud gwaith ar y gwrych/perth er mwyn diogelu a hybu adar a bywyd gwyllt arall. Dywedwyd wrtho hefyd y dylai gysylltu â'r Awdurdod Lleol pe bai unrhyw rannau o wrych/perth yn cael eu tynnu.

# Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cydymffurfio â'r Rheoliadau AEA?

Mae'r Rheoliadau'n bwysig ac mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod cydymffurfio â hwy cyn hawsed ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, drwy beidio â chyflwyno cais sgrinio neu drwy beidio â chydymffurfio â phenderfyniadau a wnaethpwyd, mae gan Lywodraeth Cymru bwerau amrywiol y gall eu defnyddio.

**Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i weithredu os bydd gwaith yn cael ei wneud heb benderfyniad sgrinio priodol neu ganiatâd AEA, neu os bydd ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth ffug. Gall LLYWODRAETH CYMRU atal gweithrediadau heb eu hawdurdodi a gwneud gwaith adfer ar draul y troseddwr. Gall Llys Barn bennu cosbau ariannol. Gall taliadau drwy Gynllun y Taliad Sengl gael eu cadw yn ôl hefyd.**

## Hysbysiadau atal a Hysbysiadau adfer

Gellir rhoi hysbysiadau atal os bydd rhywun wedi dechrau prosiect heb gael y caniatâd angenrheidiol. Fel arfer, mae hyn yn ymwneud ag achos lle mae angen caniatâd sgrinio AEA. Mae'r hysbysiad yn gorchymyn bod gwaith yn dod i ben ar unwaith, a hynny fel arfer nes bydd Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymchwiliad. Mae peidio ag ufuddhau i hysbysiad atal yn drosedd.

Gellir cyflwyno hysbysiadau adfer os bydd Llywodraeth Cymru o'r farn fod prosiect perthnasol wedi cael ei gyflawni heb y caniatâd angenrheidiol. Gall hysbysiadau adfer fynnu bod y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol. Mae peidio ag ufuddhau i hysbysiad adfer yn drosedd. Gallai peidio â chydymffurfio olygu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y gwaith ei hun ac yn gofyn i'r unigolyn dan sylw dalu'r costau.

**Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y cyflwynir Hysbysiadau Atal ac Adfer.**

## Oes yna Weithdrefn Apelio?

Wrth weithredu'r Rheoliadau AEA gall Llywodraeth Cymru anfon yr hysbysiadau a ganlyn:

- Penderfyniadau sgrinio;
- Penderfyniadau caniatâd;
- Hysbysiadau atal;
- Hysbysiadau adfer.

**Mae'r Rheoliadau yn eich galluogi i apelio yn erbyn y penderfyniad a'r hysbysiadau a restrir uchod.**

Os yw unrhyw rai o'r hysbysiadau uchod yn effeithio arnoch chi, bydd Llywodraeth Cymru yn egluro yn ysgrifenedig pam y mae wedi anfon hysbysiadau o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi gwybodaeth lawn i chi ynglŷn â'ch hawl i apelio.

Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad sgrinio neu benderfyniad caniatâd cyn pen tri mis o'r dyddiad y cawsoch wybod am y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru.

Gallwch apelio yn erbyn hysbysiad atal neu hysbysiad adfer cyn pen 28 diwrnod calendr ar ôl i'r hysbysiad perthnasol gael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Dylech anfon eich apêl i'r cyfeiriad isod:

**Yr Is-adran Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu**

Llywodraeth Cymru
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Bydd unrhyw apêl ysgrifenedig yn cael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru, a gallai'r broses hon gynnwys:

- cais am sylwadau ysgrifenedig, ac ystyriaeth o'r sylwadau hynny;
- gwrandawiad llafar; neu
- ymchwiliad lleol.

## Sut alla i gael rhagor o wybodaeth?

**Os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth, dylech gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru i ddechrau:**

**Ffôn: 0300 062 5004**
**Oriau agor: Llun-Gwener, 8:30–17:00**
www.llyw.cymru/cysylltu-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein

# Atodiad 1

## Canllaw i'ch helpu i benderfynu a yw eich Glaswelltir yn dir Heb ei Drin neu'n dir Lled-naturiol

Y diffiniad pwysicaf un yw'r 'PRAWF ALLWEDDOL':

| Tir o fewn y rheoliadau AEA (h.y. tir heb ei drin neu dir lled-naturiol) | Tir y tu allan i'r rheoliadau AEA |
|---|---|
| Llai na 25% ohono'n rhygwellt, meillion gwyn a/neu rywogaethau amaethyddol eraill | Mwy na 25% ohono'n rhygwellt, meillion gwyn a/neu rywogaethau amaethyddol eraill |

Gallwch ddefnyddio'r tabl isod hefyd fel canllaw i'ch helpu i benderfynu a yw eich tir yn dir heb ei drin neu'n dir lled-naturiol, ond cofiwch fod mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r diffiniad uchod. Os nad ydych yn siŵr a yw tir yn dir heb ei drin neu'n dir lled-naturiol, cysylltwch â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyngor neu i gyflwyno cais sgrinio.

| Tir o fewn y rheoliadau AEA (i.e. semi-natural land) | Tir y tu allan i'r rheoliadau AEA |
|---|---|
| **Hanes Rheolaeth Amaethyddol yn y Gorffennol** | |
| Heb ei aredig a'i ailhadu yn ystod y blynyddoedd diwethaf | Porfa neu dir âr sydd wedi cael ei aredig a'i ailhadu yn rheolaidd fel rhan o reolaeth amaethyddol arferol. |
| Heb gael llawer o wrtaith anorganig/ tail buarth, os o gwbl. | Wedi cael llawer o wrtaith anorganig / tail buarth / slyri / slwtsh. |
| Heb gael llawer o galch, os o gwbl – y borfa'n aml yn mynd yn asidig. | Wedi cael calch yn rheolaidd yn ôl y galw. |
| Cynhyrchiant isel – cael dim ond un toriad o wair neu silwair y flwyddyn. | Cynhyrchiant uchel – yn aml iawn yn cael dau neu dri thoriad o silwair y flwyddyn neu un cnwd toreithiog o wair. Fel arfer yn cael ei ystyried yn dir da a chynhyrchiol. |
| Cnydau porthiant fel arfer yn wair. | Cnydau porthiant fel arfer yn silwair. |
| Draeniad gwael weithiau – yn tueddu i fod yn wlyb/brwynog, ond gall fod yn sych iawn er enghraifft ar is-haen â draeniad da fel calchfaen. | Wedi ei ddraenio'n dda fel arfer. |

## Blodau gwyllt a Glaswelltau

| | |
|---|---|
| Weithiau'n cynnwys amrediad da o wahanol flodau gwyllt a glaswelltau sy'n nodweddiadol o'r math o bridd. Gall y rhywogaethau o flodau gwyllt gynnwys pengaled, cribell felen, llygad-llo mawr, pys y-ceirw, clychau'r eos a thresgl y moch. Weithiau bydd un rhywogaeth o laswelltir anamaethyddol yn fwy cyffredin na'r lleill, er enghraifft maswellt penwyn. Mae'r glaswelltau nodweddiadol yn cynnwys rhywogaethau dail meinach fel maeswellt neu beiswellt a pherwellt y gwanwyn. Mae'r borfa weithiau'n fwsoglyd. | Amrywiaeth cyfyngedig iawn o rywogaethau o flodau gwyllt. Mae'r rhywogaethau nodweddiadol o flodau a welir mewn glaswelltiroedd wedi'u gwella yn cynnwys blodyn-ymenyn ymlusgol, ysgall y maes, tafol, danadl a gwlyddyn-y-dom. |
| Mae'r rhywogaethau glaswelltir hyn fel arfer yn ymledu drwy'r cae – ambell waith ceir gorchudd uwch o flodau gwyllt nag o laswelltau. | Y rhan fwyaf o'r cae'n cynnwys ychydig iawn o rywogaethau – rhywogaethau amaethyddol fel rhygwellt neu feillion gwyn fel arfer. |

## Bywyd Gwyllt Cysylltiedig

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth eang o infertebratau (gloÿnnod byw, ceiliogod rhedyn, chwilod a phryfed eraill) er na fyddant yn amlwg bob amser. Twmpathau morgrug ambell waith. | Mae'r bywyd gwyllt cysylltiedig yn gyfyngedig. Amrywiaeth gwael o infertebratau a dim twmpathau morgrug. |
| Adar nythu er enghraifft yr ehedydd, y gylfinir, y gïach cyffredin a'r gornchwiglen. | Fel arfer ychydig o adar nythu er bod rhai glaswelltau wedi'u gwella'n rhannol yn gallu cynnal poblogaethau o rywogaethau pwysig o adar, er enghraifft y gornchwiglen. |

# Atodiad 2
## Meini Prawf ar gyfer Penderfyniadau Sgrinio

Mae'r Gyfarwyddeb AEA[1] yn rhestru'r holl feini prawf y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau sgrinio.
Dyma'r prif feini prawf:

- Natur a maint y prosiect, gan gynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig.
- Effeithiau cronnus gyda phrosiectau eraill, gan gynnwys:
  - Faint o dir (arwynebedd neu bellter) sy'n cael ei effeithio.
  - Faint o wastraff neu lygredd.
  - Natur a maint posibl yr effaith ar yr amgylchedd.
  - Niferoedd a maint y poblogaethau yr effeithir arnynt.
  - Gallu'r amgylchedd i ddygymod ag effaith y prosiect.
  - Gallu'r amgylchedd i ailwladychu, o ran y tebygolrwydd y bydd yr amgylchedd yn cael ei adfer a faint o amser y bydd hynny'n ei gymryd.
- Maint a difrifoldeb effeithiau ar ardaloedd sensitif, gan gynnwys:
  - Yr effaith ar dir sydd â dynodiad amgylcheddol, er enghraifft Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardal Cadwraeth Arbennig arfaethedig (AGAa), safle RAMSAR, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ac Arfordir Treftadaeth.
  - Effeithiau ar fioamrywiaeth, yn fwyaf arbennig, maint yr effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth.
  - Effaith ar asedau hanesyddol (safleoedd o werth archaeolegol, diwylliannol a hanesyddol) yn enwedig safleoedd dynodedig, er enghraifft henebion cofrestredig.

1 Cyfarwyddeb 2011/92/EU ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd.

# Atodiad 3
## Diffiniadau, Eglurhad a Rhagor o Wybodaeth

| | |
|---|---|
| Tir Pori Parhaol | Diffinnir tir pori parhaol fel tir pori sydd wedi ei sefydlu ers pum mlynedd neu fwy. |
| Yn rheolaidd | Mae gweithgaredd rheolaidd yn weithgaredd sy'n digwydd dro ar ôl tro, ag ysbaid debyg o amser rhwng pob tro. Bydd y cysondeb yn dibynnu ar y gweithgaredd, ac efallai y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn oddrychol, ond rhagdybir y bydd y camau wedi'u cymryd droeon yn y gorffennol. |
| Gweithrediadau Arferol | Mae gweithrediadau arferol yn golygu camau sydd wedi cael eu cymryd yn rheolaidd yn y gorffennol diweddar. |
| Effaith Sylweddol | Mae effaith sylweddol yn un sy'n achosi newid mawr i gynefin, rhywogaeth neu'r amgylchedd, a'r newid hwnnw'n debygol o fod yn un negyddol. |
| Cynlluniau amaeth amgylcheddol | Os ydych wedi arwyddo cytundeb sy'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol, er enghraifft Tir Gofal neu Glastir, a'ch bod yn bwriadu cyflawni gwaith nad yw wedi cael ei gymeradwyo'n barod yn eich cytundeb, dylech gysylltu â'ch rheolwr contract i ddechrau neu â Chanolfan Gyswllt Cwsmeriaid RPW. Byddant yn cadarnhau a yw'n briodol i chi gyflwyno cais sgrinio.<br><br>Gallai unrhyw waith gwella amaethyddol sy'n effeithio ar gynefinoedd lled-naturiol a thir pori garw lled-naturiol dorri amodau cynllun amaeth-amgylcheddol. NID yw ymateb sgrinio AEA yn rhoi caniatâd i chi dorri unrhyw amodau mewn cynllun amaeth-amgylcheddol sy'n berthnasol i'ch tir. |
| Costau | Ni fydd Llywodraeth Cymru yn codi tâl am geisiadau sgrinio, cyngor cwmpasu neu geisiadau am ganiatâd AEA; mae'r gwasanaeth yn ddi-dâl. Fodd bynnag, os ydych yn dewis defnyddio ymgynghorwyr preifat dylech fod yn ymwybodol eu bod yn debygol o godi tâl am unrhyw gymorth y maent yn ei roi. |
| Canllawiau | Mae Nodiadau Canllaw a ffurflenni cais ar wahân ar gyfer pob agwedd o'r broses AEA. Dylech ofyn am gopïau ohonynt a dod yn gyfarwydd â'r broses. Mae'r nodiadau canllaw sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol. |

| | |
|---|---|
| Rheoliadau Eraill | Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegol at ofynion statudol eraill fel y rhai sy'n ymwneud â:<br>• gwrychoedd/perthi;<br>• gweithrediadau ar Henebion Rhestredig;<br>• mesurau i ddiogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;<br>• polisïau rheoli datblygu mewn Parciau Cenedlaethol;<br>• caniatâd neu drwyddedau a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru;<br>• trwyddedau ar gyfer gweithrediadau sy'n effeithio ar rywogaethau o fywyd gwyllt;<br>• Rheoliadau Cynefinoedd.<br>Os oes angen math arall o ganiatâd bydd angen i chi gael y caniatâd hwnnw yn ogystal â gwneud cais sgrinio neu gais am ganiatâd AEA. |
| Cofrestr Gyhoeddus | Cofnodir penderfyniadau sgrinio ffurfiol ar gofrestr y gall y cyhoedd ei gweld ar-lein, ar wefan Llywodraeth Cymru.<br>www.llyw.cymru/eiaamaeth |
| Dynodiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael eu diogelu rhag gweithrediadau niweidiol. Rhaid cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn gwneud unrhyw weithrediad/gweithgaredd gwahanol i'r arfer ar SoDdGA. Dylech gysylltu â CNC cyn cyflwyno cais sgrinio AEA sy'n effeithio ar SoDdGA. |
| Dynodiad Heneb Gofrestredig | Rhaid cael Caniatâd Heneb Gofrestredig cyn gwneud unrhyw waith neu addasiadau ar Heneb Gofrestredig. Mae Caniatâd Heneb Gofrestredig yn ofynnol dan y gyfraith ac mae'r rhwymedigaeth yn cael ei gweinyddu gan Cadw. Dylech gysylltu â Cadw cyn cyflwyno cais sgrinio AEA sy'n effeithio ar Heneb Gofrestredig. Anfonwch unrhyw ymholiadau i:<br>amadminplanning@llyw.cymru |
| Amserlen | Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ymateb cyn gynted ag y bo modd, ond os oes angen ymgynghori â chyrff eraill mae'n bosibl y bydd rhywfaint o oedi. Bydd llawer o benderfyniadau sgrinio'n cael eu gwneud cyn pen 14 diwrnod ond gall rhai gymryd hyd at 35 diwrnod. Mae caniatâd sgrinio AEA yn ddilys am 3 blynedd o ddyddiad llythyr y penderfyniad. Gallwch wneud cais am ganiatâd gryn dipyn cyn yr adeg rydych yn bwriadu dechrau gwneud y gwaith.<br>Er mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cynnig cymaint o help ag sy'n bosibl, os oes angen i chi gael Datganiad Amgylcheddol a mynd drwy holl gamau'r broses gall gymryd tipyn o amser. Bydd angen i chi ystyried hyn wrth gynllunio gwaith er mwyn sicrhau bod gennych ddigon o amser i gael y caniatâd angenrheidiol i ddechrau. |